

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 6ed o Dachwedd 2023 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Trelech.

Cynghorwyr yn bresennol: Derrick Harries (Cadeirydd), Andrew Jones, Ambrose Lewis, Alyson Harries, John Phillips, Linda Davies & Dyfed Davies.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Eirian Howells, Arwyn Jones, Ann Sillars & Cynghorydd Sir Jean Lewis
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Diolchodd Derrick Harries i bawb am fynychu.
3. **Datgan Buddiannau:**
Ni nodwyd unrhyw datgan budd.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 3ydd o Fedi 2023 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
 - Roedd y clerc wedi cwblhau yr aelodaeth gyda'r ICO ac wedi trefnu adnewyddiad blynyddol trwy debyd uniongyrchol gan ei fod yn golygu gostyngiad yn y ffi blynyddol.
 - Teiars wedi ei gollwng yn anghyfreithlon yn Pontrhyd-ddofn – Roedd y clerc ac y Cynghorydd Sir wedi bod mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir parthed y teiars ar nifer o achlysuron ac er gwaethaf yr ymdrechion, nid oedd y Cyngor Sir yn barod i'w casglu gan eu bod ar dir preifat. Roedd y Cynghorwyr yn siomedig gyda'r sefyllfa.
 - Roedd yr arwyddion ffyrdd l'w gosod gan y CYngor Sir parthed lorïau ar waith.
 - Gan nad oedd y clerc wedi medru derbyn amserlen gan y Cyngor Sir am y gwaith i'w gwneud yng Nghlynfelyn, penderfynwyd cario ymlaen gyda'r gwaith a oedd eisioes wedi ei gymerdawyo ar yr heol o'r Ydlan hyd y fynwent. Byddai'r clerc yn cysylltu gyda'r contractiwr.
 - Roedd y clerc wedi cysylltu gyda pherchennog seit Clos-y-Cynin ac roedd wedi ei hysbysu fod y safle/plotiau ar werth ac nid oedd yn bwriadu gwneud unrhyw waith yno.

6. Gohebiaeth

- a. Roedd y clerc wedi derbyn cais wrth Cyngor Sir Caerfyrddin am swm l'w roi ar y cais am arian Adran 106 parthed cais Cynllunio PL/05248 – Maes Cawnen, petai'r cais yn cael ei gymeradwyo. Roedd y clerc wedi darllen dogfennau atodol y Cyngor Sir parthed arian adran 106 ac wedi siarad gyda pwyllgor Parc Trelech ynghlyn a beth hoffent cael ei osod yn y parc. Derbyniodd y clerc amcan prisiau ac felly wedi rhoi cais i fewn am £25,225 am llinell-zip a siglen fasged.
- b. Roedd y Cyngor Sir wedi ebostio yn atgoffa y Cyngor Cymuned o'u cyfrifoldebau ynghlyn a Cynllun hyfforddiant.
- c. Ceisiadau Cynllunio
 - PL/06565 – Gosod pwmp ynni gwres o aer @ 7 Caerwenog, Trelech
 - PL/06579 – Estniad dau lawr l gefn @ Waterloo House, Trelech
- d. Roedd yr hysbysion am cau heolydd wedi eu cylchredeg i'r Cynghorwyr.

7.Cyllid - Cyfrif Busnes Cyfredol £1,259.22

Cafodd yr adroddiad Gwariant v Cyllideb hyd 31/1023 ei ddosbarthu a'i drafod.

8. Unrhyw Fater Arall

- Codwyd pryder nad oedd yr arwyddion arallgyfeirio wedi cael eu casglu yn dilyn cwblhad gwaith ffyrdd.
- Adroddwyd tyllau ar yr heolydd
 - Rhwng Blaenparsel a Nantglas
 - Ochr Penybont o Glaspant
 - O'r brif heol I Wauntwr
 - Ger Castellmawr
 - Ger Brynyrawel
- Codwyd pryder fod perchennog Ronanny yn parcio ei gar yng nghanol yr ardal ger yr eglwys a oedd yn golygu nad oedd cerbydau mawr yn medru troi o amgloch. Gan fod diffyg lle i droi ym Mhenybont ac yr heolydd cul, dyma oedd yr unig lle i droi. Roedd hyn yn creu tipyn o drafferth yn y pentref.
- Nodwyd fod angen newid yr arwydd ger Canolfan Penybont yn hysbysu anabledd yr heol ar gyfer lorïau cael ei newid i un gyda llun gan fod problemau wedi bod yno yn ddiweddar.
- Codwyd pryder fod posibilrwydd o goed cwmpo a cau yr heol a tynnu i lawr gwifrau o dir a berchnogwyd gan Cwmgest a Penrhiwbeili. Byddai'r clerc yn ysgrifennu at u tirlfeddiannwyr.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 8.50yh.